

## PWYLLGOR YMDDEOL YN GYNNAR / DILEU SWYDDI

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 11 Hydref, 2021.

Mae'r Agenda [ar gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd); Cynghorwyr J.E. Charles, P. Drake, K.F. McCaffer ac R.A. Penrose.

### EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd G. John (Is-gadeirydd).

### EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 2021 fel cofnod cywir.

### EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

### GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yn Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

### EITEM AGENDA 5. CAIS AM YMDDEOLIAD HYBLYG O W (CGC) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 13 A 14) –

PENDERFYNWYD –

(1) CYTUNO i ymddeoliad hyblyg W, yn unol â pholisi'r Cyngor, yn amodol ar ddim amgylchiadau eraill yn codi yn y cyfamser lle byddai'r gyflogaeth yn cael ei therfynu am reswm gwahanol.

(2) CYMERADWYO'r defnydd o'r pwerau dirprwyedig priodol, er mwyn galluogi W i leihau ei oriau dan contract o 37 i 21.15 yr wythnos o 1 Ebrill, 2022.

(3) Y BYDD ymddeoliad W o gyflogaeth gyda'r Cyngor yn digwydd ar neu cyn 31 Mawrth, 2024.

## Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Penderfynu ar y cais am ymddeoliad hyblyg o fewn y rheoliadau a chaniatáu ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.

(2 a 3) Sicrhau'r newid angenrheidiol i oriau gwaith y cyflogai, darparu cymorth priodol i helpu'r cyflogai i bontio i ymddeoliad a galluogi cynllunio olyniaeth yn well.

.